

JONES, THOMAS (1648? - 1713), Llundain ac Amwythig, almanaciwr, gwerthwr llyfrau, argraffydd, a chyhoeddwr

**Enw:** Thomas Jones

**Dyddiad geni:** 1648?

**Dyddiad marw:** 1713

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** almanaciwr, gwerthwr llyfrau, argraffydd, a chyhoeddwr

**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Hanes a Diwylliant; Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd; Gwyddoniaeth a Mathemateg

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Tre'r Ddôl, gerllaw Corwen, 1 Mai 1648 (fel y tybir). Dywedir iddo fyned i Lundain pan oedd yn 18 oed i weithio fel teiliwr; wedi hynny fe'i ceir yn mynychu ffeiriau yng Nghaer, Amwythig, Wrecsam, a Bryste - yn gwerthu llyfrau, etc., o bosibl. Y mae H. R. Plomer (*Dict. of Printers and Booksellers ... at work ... from 1668 to 1725*) yn cysylltu ei enw â *The Character of a Quack Doctor*, 1676. Tua diwedd 1679 cyhoeddodd rifyn cyntaf (sef y rhifyn am 1680) ei gyfres o 32 o almanaciau Cymraeg, cyfres a barhaodd hyd 1712. Y mae'r 'Letters Patent' yn rhoddi iddo (ac iddo ef yn unig) yr hawl i ysgrifennu, argraffu, a chyhoeddi almanac 'in the British Language' wedi eu dyddio 1 Ionawr 1679, ac y mae caniatâd Cwmni y Stationers (Dinas Llundain) iddo gyhoeddi (efe yn unig) almanaciau 'in the Welsh tongue' wedi ei ddyddio y dydd cyntaf o fis Mawrth yn yr un flwyddyn. Yn 1681 yr oedd ganddo siop yn Paul's Alley, yn 1685 yr oedd wedi ymsefydlu yn Blackfriars, ac y mae rhagair ei eiriadur, 1688, wedi ei ysgrifennu o'i dy yn ymyl arwydd yr eliffant yn Lower Moorfields. Y mae tri llyfr a gyhoeddwyd ganddo yn Llundain yn neilltuol brin: (a) *Llyfr Plygain*, 1683; (b) *Athrawiaeth i Ddysgu Ysgrifennu amriw fath ar ddwylo, Wrth yr hyn y Geill pawb ddysgu Ysgrifennu gartref*, 1683 (y 'copy-book' Cymraeg cyntaf, hyd y gwyddys, gweler [Journal of the Welsh Bibliographical Society](#), iv, 67, 113); a (c) *Y Gwir er Gwaethed yw*, 1684, hanes y 'Popish Plot' ar gân ([Journal of the Welsh Bibliographical Society](#), iv, 243); ceir copïau o'r tri yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn 1687-8 cyhoeddodd y *Llyfr Gweddi Gyffredin, fersiwn Gymraeg o'r Deugain-namyn-un Erthyglau Eglwys Loegr*, a *Salmau Cân Edmwnd Prys*. Cyhoeddiad sylweddol arall yn perthyn i'w gyfnod yn Llundain oedd *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, 1688, sef geiriadur. Erbyn hyn yr oedd iddo fusnes gweddol helaeth fel llyfrwerthwr a chanddo gynrychiolwyr yn gwerthu drosto yng Nghaer, y Fenni, y Bala, Dolgellau, Llanfyllin, Croesoswallt, Trallwng, ac Amwythig. Ni ellir dywedyd gyda sicrwydd pa bryd yr ymsefydlodd yn Amwythig, eithr cred rhai llyfryddwyr iddo gyhoeddi *Carolau a Dyriau Duwiol*, 1696 (gwaith sydd yn cynnwys 45 o'r 54 cân neu gerdd a oedd yn llyfr prin Ffoulke Owens, sef *Cerdd-Lyfr*, 1686, gyda 115 wedi eu hychwanegu gan Thomas Jones) yn Amwythig. Gwaith arall cymharol gynnar a ddaeth o Amwythig, efallai, oedd *Artemidorus: Gwir Ddeongliad Breuddwydion* (1698?; y mae copi amherffaith yn Ll.G.C.). Gellir bod yn bendant wrth ddywedyd iddo gyhoeddi *Attebion i'r Hôll Wâg Escusion ... yn erbyn dyfod i dderbyn y Cymmun bendigedig*, 1698, a *Taith y Pererin*, 1699, yn y dref honno. Yr oedd Jones yn brysur erbyn hyn gyda'i wahanol gyhoeddiadau a'r gwaith o werthu, ac yr oedd ar yr un pryd yn gwneuthur Amwythig yr

hyn a fu am rai degau o flynyddoedd wedi ei amser ef - yn brif ganolfan argraffu a chyhoeddi llyfrau Cymraeg. Ceir manylion am y gwahanol fannau yn y dref yr oedd yr argraffydd a'r cyhoeddwr yn byw neu yn cynnal ei fusnes ynddynt gan Llewelyn C. Lloyd yn 'The Book Trade in Shropshire' (*Trans. Shropsh. Archaeological ... Soc.*, xlviii, 1935-6).

Y mae rhestr y gweithiau y bu Thomas Jones yn gyfrifol amdanynt (yn Llundain ac Amwythig) yn faith ac yn bwysig; bu'n gymwynaswr mawr i lenyddiaeth Cymru. Nid pethau-dros-dro ydoedd ei almanaciau hyd yn oed; ceid ynddynt garolau a cherddi o waith rhai o'r beirdd, ac y maent, o'r herwydd, yn parhau yn eu diddordeb a'u gwerth hyd heddiw. Rhoddir manylion am y gwahanol gyhoeddiadau yn [Journal of the Welsh Bibliographical Society](#) (i, ii, iv) a chan [Ifano Jones](#) yn ei *Hist. of Printing and Printers in Wales*; gweler hefyd erthygl gan [T. Shankland](#) yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1912-3. Y mae iddo ddiddordeb ar un cyfrif arall hefyd; gellir ei alw yn dad newyddiaduriaeth Gymreig. Ymddengys iddo gychwyn cyhoeddi papur newyddion at wasanaeth Cymry; cesglir hyn oddi wrth gyfeiriadau yn ei almanaciau am 1691 a 1692 ([Journal of the Welsh Bibliographical Society](#), ii, 99). Ni lwyddodd yr antur ac nid oes (hyd y gwyddys) gopi o'r papur ar gael; rhoes y cyhoeddwr y bai ar y siopwyr a werthai bethau drosto a dywedyd na bu iddynt ordro copïau. Dywedodd T. W. Hancock (*Bye-Gones*, 25 Mai 1881) i Thomas Jones gyhoeddi'r hyn a elwid yn yr oes honno yn 'news-sheet.' Yr enw oedd *A Collection of all the Material News, Printed and sold by Thomas Jones in Hill's Lane near Mardol. Price 1 d.* - yn 1705, efallai. Os gwnaeth, yna fe ddylid cyfrif Amwythig ymhlith y trefi cyntaf y tu allan i Lundain y cyhoeddwyd newyddiaduron ynddynt; ym mis Medi 1701 y dechreuwyd cyhoeddi y *Norwich Post* gan Francis Burges (Llewelyn C. Lloyd, op. cit.).

Bu Thomas Jones farw 6 Awst 1713 yn ôl 'Marw-nad am yr enwog Sywedydd Thomas Jones yr hwn a fu farw y 6 Dydd o fis Awst 1713'; efe, y mae'n debyg, ydoedd y 'Thomas Jones, of ye Castle Hill' a gladdwyd ar 8 Awst 1713 (cofrestr eglwys S. Mary, Amwythig).

## Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddwyd yng nghorff yr erthygl ychwaneger W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, a Moses Williams, *Cofrestr o'r holl lyfrau printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn yr iaith Gymraeg, neu a gyfieithwyd iddi hyd y flwyddyn 1717* (Llundain 1717)

## Darllen Pellach

LIGC: [Casgliad Almanaciau Cymraeg](#)

## Sain a Ffilm

Geraint Jenkins: ['Y Sywedydd Chwyslyd': Thomas Jones yr Almanaciwr](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [3791894](#)

Wikidata: [Q18936277](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

